

pecyn cymorth marchnata



01

Naws am le

"Gall elfennau Naws am Le fod yn fil ac un o bethau. Dyma'r teimlad a gewch wrth ymweld â rhywle am y tro cyntaf – yr argraff gyntaf, y ddelwedd, y teimlad, yr awyrgylch, y bobl. Mae Naws am Le yn cofleidio golygfeydd, synau a phrofiadau nodweddiadol hynny sydd wedi eu gwreiddio mewn gwlad, yr elfennau unigryw a chofiadwy hynny sy'n cyseinio gyda phobl leol ac ymwelwyr."



Pecyn Cymorth Naws am le Croeso Cymru

<https://businesswales.gov.wales/dmwales/cy/sense-place/taflenni-gwaith>

Mewn cyfweiliadau ar gyfer Arolwg Ymwelwyr Cymru diweddar, cofnododd y rhai a ymatebodd yng Ngheredigion sgôr uchel iawn i'w taith – y sgôr boddhad cyffredinol oedd 9.5 allan o 10. Sgoriodd 'ansawdd yr amgylchedd naturiol' a 'pobl gyfeillgar' gyfartaledd o 9.7 allan o 10. Roedd pob sgôr oedd yn ymwneud â theithiau ymwelwyr yn debyg i gyfartaledd Cymru neu'n uwch na hynny.

Mae ymwelwyr yn dibynnu llawn cymaint ar farn pobl eraill ag y maen nhw ar daflenni neu hysbysebion - maen nhw'n tueddu i gredu beth mae pobl yn ei feddwl am y llefydd a'r profiadau y bydden nhw'n hoffi rhoi cynnig arnyh nhw,

gan edrych ar nifer o wefannau cyn archebu. Bydd negeseuon clir a chyson am Geredigion yn helpu darpar ymwelwyr i ddeall beth sydd gan Geredigion i'w gynnig i fodloni eu hanghenion a'u disgwyliadau, ac yna dewis ymweld â Cheredigion. Y bobl sydd eisoes yn ymweld â ni yn aml iawn yw'r bobl orau i siarad ar ein rhan, ac maen nhw'n aml yn barod i rannu eu teimpladau, eu hatgofion a'u lluniau o'u gwyliau. Mae'n bwysig felly i fusnesau ar draws Geredigion gadw cyswllt â'u cwsmeriaid - mae'r cyfryngau cymdeithasol yn ffordd hawdd a chost-effeithiol i wneud hyn.

Disgwyliadau ymwelwyr

Nododd astudiaeth ddiweddar o ymwybyddiaeth brand ardal Ceredigion fod y nodweddion canlynol yn allweddol bwysig i bobl wrth gynllunio gwyliau yn y Deyrnas Unedig:

- Bwyd a diod lleol da
- Golygfeydd glân ac amrywiol
- Tawelwch
- Amrywiaeth da o weithgareddau awyr agored

Mae'r pedwar nodwedd hyn yn cael lle amlwg yng nghanfyddiad pobl o Geredigion. Roedd disgwyliadau pobl o Geredigion yn cynnwys:

- “Awyr iach, tirlun syfrdanol”
- “Byddwn i'n disgwyl dod o hyd i draeth a gwyliau i ymlacio”
- “... Trefi bach, tawel, tafarnau lleol, tirlun”
- “... gweithgareddau awyr agored a diwylliant lleol / awyrgylch da”

A nododd pobl oedd yn gyfarwydd â Cheredigion:

- “Mae gyrru drwy'r brynau'n hyfryd. Mae'r wlad yn hamddenol a gwyrdd”
- “Mae awyrgylch hamddenol a diffwdan yma”
- “Mae yna liw glas yn y môr sy'n wahanol i unrhyw las arall. Mae'n las trawiadol, disglair”
- “Y traethau – maen nhw mor ddeniadol – traethau a childraethau bach tywodlyd gyda machlud godidog”

Themâu blaenoriaeth ar gyfer marchnata

Yr her felly yw dangos beth sy'n wahanol am Geredigion fel cyrchfan fydd ymwelwyr yn ei ddewis wrth ymweld â Chymru, a sicrhau eu bod yn deall ac yn edrych ymlaen at eu profiad, a allai fod eu hymweliad cyntaf â Chymru. Y themâu blaenoriaeth ar gyfer marchnata Ceredigion, Bae Ceredigion a Mynyddoedd y Cambria yw:

Bywyd gwyllt, a thirweddau arbennig wedi’u diogelu

Ar yr arfordir a’r tir mawr - gan gyfeirio’n arbennig at boblogaeth Bae Ceredigion o ddolffiniaid trwynbwl; rhywogaethau eiconig o adar gan gynnwys llwyddiant lleol y barcud coch a’r gwalch; y nodweddion arbennig gan gynnwys llonyddwch y safleoedd cysegredig a’r tirweddau arbennig sydd wedi’u diogelu.

Awgrym Rhannwch luniau o fywyd gwyllt sy’n berthnasol i’ch busnes neu ei leoliad; os ydych chi’n agos at yr arfordir, cofiwch sôn am ddolffiniaid trwynbwl Bae Ceredigion, ond cofiwch fod rhywogaethau eraill y bydd yr ymwelwyr wrth eu bodd yn eu gweld hefyd.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod am safleoedd arbennig yn eich ardal i ymweld â nhw, a soniwch am y rhain wrth eich ymwelwyr, fel coedwigoedd clychau’r gog, traethau gyda phyllau creigiog da neu fannau ar hyd yr arfordir sy’n dda ar gyfer gwyllo morloi a dolffiniaid.

Etifeddiaeth ddiwylliannol ac ieithyddol

Gan gynnwys barddoniaeth a llenyddiaeth, cerddoriaeth a pherfformio, darganfod etifeddiaeth deuluol a chenedlaethol, a chyfleoedd i ddysgu Cymraeg a sgiliau eraill mewn amgylchedd cyfeillgar, hamddenol.

Awgrym Cyflwynwch eich ymwelwyr i straeon lleol – bydd rhai o bosib yn gyfarwydd iddyn nhw, ond nid y lleoliadau sy’n gysylltiedig â nhw.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod am ddigwyddiadau lleol, a rhannwch y rhain gyda’ch darpar ymwelwyr - fe allai hynny eu perswadio i ymweld â Cheredigion, yn hytrach nag ardal arall.

Sylwch os yw rhywun yn angerddol neu’n dangos diddordeb mewn rhywbeth penodol, a sgwrsiwch gyda nhw amdano. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod am rywun i gysylltu â nhw os oes angen help arbenigol ar rywun e.e. i olrhain eu hachau.

Bwyd a diod lleol o ansawdd uchel

Mae Ceredigion yn cynhyrchu bwyd a diod o’r ansawdd gorau – cig eidion ac oen Cymreig, pysgod a bwyd môr, caws, dŵr, cwrw, gwin a gwirod. Mae Ceredigion yn gartref i frandiau o fri rhyngwladol, ac mae yma nifer cynyddol o lefydd bwyta uchel eu bri ac sy’n ennill gwobrau, yn ogystal â chyfleoedd i ymweld â ffermydd a chynhyrchwyr, a marchnadoedd rheolaidd a thymor o wyliau bwyd.

Awgrym Dilynwch a rhannwch lwyddiant busnesau sy’n ategu’ch un chi, a gwnewch eich argymhellion eich hun – bydd yn dangos eich bod yn deall anghenion eich cwsmeriaid, ac yn eu sicrhau y byddan nhw’n cael eu bodloni yng Ngheredigion.

Os ydych chi'n gweini bwyd, ac yn gwneud ymdrech i ddefnyddio cynhwysion lleol, gwnewch yn siŵr fod eich cwsmeriaid yn gwybod hynny: cyfeiriwch ar eich bwydlen, a sicrhewch bod eich staff yn gallu egluro'r cynhwysion lleol a'u tarddiad yn hyderus.

Rhowch restr o fannau i siopa'n lleol pan fydd eich gwesteion yn archebu, a thynnwch sylw at lefydd lle gallan nhw brynu neu brofi cynnyrch lleol.

Amgylchedd glân, iach a hamddenol, delfrydol ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau awyr agored

Mae gan Geredigion draethau deniadol sydd wedi ennill gwobrau, llwybrau cerdded rhagorol ac amrywiol – o Lwybr Arfordir Ceredigion i goetiroedd a llwybrau crwydrol drwy'r bryniau.

Awgrym Peidiwch ag anghofio sôn am y traethau sydd wedi ennill gwobrau a'r gwasanaeth achubwyr bywydau yn ystod yr haf. Tynnwch sylw at eich hoff lwybrau cerdded lleol yn ogystal â Lwybr Arfordir Cymru/Ceredigion ac edrychwch i weld pa gyfleoedd sydd ar gael i wylïo, cymryd rhan a mentro ar chwaraeon newydd, gan gynnwys seiclo, seiclo mynydd, marchogaeth, chwaraeon dŵr, pysgota, golff ac ati a soniwch amdany'n nhw wrth eich cwsmeriaid - ar eich gwefan, y cyfryngau cymdeithasol, neu drwy ddiweddarau eich pecyn croeso, hysbysfwrdd neu arddangosfa o daflenni'n rheolaidd.

Ansawdd a gwerth am arian mewn atyniadau, digwyddiadau ac uchafbwyntiau tymhorol

Hyrwyddwch Ceredigion fel cyrchfan drwy'r flwyddyn gan ganolbwyntio ar ddigwyddiadau, atyniadau a llety ansawdd uchel, gyda digon i'w wneud pan nad yw'r tywydd gystal.

Awgrym Manteisiwch ar y cyfle i ymweld ag atyniadau – mae llawer yn cynnal dyddiau agored i fusnesau twristiaeth lleol. Dilynwch nhw ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn i chi allu siarad yn hyderus, gyda'r wybodaeth ddiweddaraf, am yr hyn sydd ar gael i'ch ymwelwyr.